# Dilysu data Adnabod Llinell y Galwr: dull posibl o ganfod a rhwystro rhifau sy'n cael eu camfeddiannu

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 28 Ebrill 2023

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn ymatebion: 23 Mehefin 2023


# 1. Trosolwg

Mae diogelu defnyddwyr rhag niwed yn flaenoriaeth i Ofcom ac rydym yn pryderu am y broblem o sgamiau a hwylusir gan alwadau ffôn. Tacteg gyffredin a ddefnyddir gan sgamwyr yw camfeddiannu (sbŵffio) rhifau ffôn er mwyn iddynt ymddangos eu bod yn dod gan berson neu sefydliad dibynadwy, megis banc. Pan fydd galwadau sgam yn ymddangos yn ddibynadwy, mae'n golygu bod dioddefwyr yn fwy tebygol o rannu gwybodaeth bersonol neu wneud taliad, a all arwain at niwed ariannol ac emosiynol sylweddol.

Mae Ofcom eisoes wedi cymryd nifer o gamau i leihau galwadau a negeseuon testun sgam. Yn ddiweddar, rydym wedi cryfhau ein rheolau sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr telegyfathrebiadau ganfod a rhwystro rhifau sy’n cael eu camfeddiannu lle bo hynny’n bosibl, ac wedi cyhoeddi canllawiau cysylltiedig a chanllaw ymarfer da ar wahân i helpu i atal sgamwyr rhag cael gafael ar rifau ffôn dilys. Mae rhai darparwyr yn rhoi mesurau ychwanegol ar waith a allai hefyd fod yn effeithiol o ran lleihau galwadau sgam.

Fodd bynnag, yn y tymor hwy, byddai’n bosibl i ddarparwyr roi prosesau mwy cynhwysfawr ar waith sy’n canfod ac yn rhwystro rhifau sy’n cael eu sbŵffio. Byddai’r rhain yn golygu bod y rhwydwaith o ble mae’r alwad yn tarddu, lle bo hynny’n dechnegol bosibl, yn cadarnhau dilysrwydd rhif ffôn y galwr cyn ei drosglwyddo i rwydwaith y sawl sy’n derbyn yr alwad. Rydym yn cyfeirio at hyn fel ‘dilysu data Adnabod Llinell y Galwr’. Mae Ffigur 1 yn dangos sut y byddai hyn yn gweithio i fusnes, er y byddai’r un egwyddorion yn berthnasol i bob galwad.

**Ffigur 1: Dilysu data Adnabod Llinell y Galwr**




Yn y ddogfen hon, rydym ni’n gwahodd rhanddeiliaid i rannu eu safbwyntiau ar ein cynigion ynghylch sut gallai dilysu data adnabod llinell y galwr weithio yn y DU, ac i ba raddau mae’r camau mae darparwyr eisoes yn eu cymryd yn debygol o fynd i’r afael â’r broblem o sbŵffio rhifau. Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer ymyriadau rheoleiddio penodol ar hyn o bryd.

Os mai ein safbwynt dros dro, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, yw bod achos dros wneud dilysu data Adnabod Llinell y Galwr yn ofynnol, byddwn yn cyhoeddi asesiad llawn o’r effaith debygol a’n cynigion ar gyfer y rheolau rheoleiddio y byddai eu hangen.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Mae galwadau a negeseuon testun sgam yn gyffredin, gyda'n gwaith ymchwil yn canfod bod galwadau amheus yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o bobl yn y DU, ac mae'r defnydd o rifau sy'n cael eu sbŵffio - lle mae hunaniaeth y galwr yn cael ei guddio - yn ffactor gyffredin. Gall dioddefwyr sgamiau ddioddef niwed ariannol ac emosiynol sylweddol, ac mae sgamiau hefyd yn arwain at gostau i'r economi ehangach.

Mae gennym nifer o gynlluniau ar waith yn barod i leihau galwadau a negeseuon testun sgam. Mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith nawr ac yn cynnig rhai manteision uniongyrchol i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, er y bydd yr ymyriadau hyn yn rhwystro methodolegau sgam penodol, gall sgamwyr newid eu dulliau er mwyn eu trechu.

Mae mentrau diwydiant, fel hidlyddion galwadau, apiau ffôn a rhestrau rhwystro, yn helpu i fynd i'r afael â'r her i ryw raddau, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn annigonol wrth fynd i'r afael â'r broblem o gamfeddiannu rhifau. Er enghraifft, efallai y bydd rhai datrysiadau yn dibynnu ar ddefnyddwyr yn eu mabwysiadu ac nid ydynt yn debygol o fod ar gael ym mhobman. Hyd yn oed pan fyddant yn cael eu defnyddio, gall cyfyngiadau technegol eu gwneud yn llai effeithiol o ran atal sgamiau. Er bod cynlluniau eraill i fynd i'r afael â galwadau sgam yn cael eu cynllunio neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith gan ddarparwyr unigol, nid yw'n glir ar hyn o bryd pa mor llwyddiannus fyddant. Yn ogystal, efallai y bydd sgamwyr yn ceisio osgoi unrhyw fesurau a gyflwynir, gan alw am ddatrysiad mwy cynhwysfawr. O ganlyniad, rydym yn rhagweld y bydd angen rhagor o ymyrraeth reoleiddiol.

Yn 2019, fel rhan o'n hymgynghoriad ar hyrwyddo ymddiriedaeth mewn rhifau ffôn, roeddem wedi ystyried dilysu data Adnabod Llinell y Galwr er, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fe benderfynom ni beidio â mynd ar drywydd dilysu data Adnabod Llinell y Galwr bryd hynny. Ers hynny, rydym wedi arsylwi profiadau gwledydd eraill sydd wedi dechrau cyflwyno dulliau dilysu CLI, ac mae NICC (grŵp diwydiant) wedi ystyried ymhellach sut y gellid cyflwyno dilysu CLI yn y DU. Rydym hefyd yn nodi bod darparwyr yn y DU yn symud i ddefnyddio *Protocol Llais dros y Rhyngrwyd* i gludo galwadau, sy'n newid sylweddol i'r system sy'n caniatáu ar gyfer dulliau newydd o fynd i'r afael â sgamiau a galwadau niwsans. O ganlyniad, dyma'r amser iawn i edrych unwaith eto ar rôl bosibl dilysu CLI wrth fynd i'r afael â galwadau sy'n cael eu camfeddiannu.

Byddai ein dull gweithredu a awgrymir ar gyfer sut gallai dilysu CLI weithio yn y DU yn arwain at ddarparwyr gwreiddiol yn cadarnhau bod y rhifau sy'n cael eu defnyddio gan eu cwsmeriaid (ar gyfer bron pob galwad +44) yn ddilys er mwyn sicrhau bod y darparwr sy'n terfynu yn derbyn yr alwad ac yn ei throsglwyddo i'w cwsmer. Yn absenoldeb y cadarnhad hwn, ni fyddai disgwyl i ddarparwyr sy'n terfynu dderbyn a chysylltu'r alwad yn ddiofyn.

Rydym yn cydnabod y bydd rhai amgylchiadau lle, er y byddai cadarnhad yn ddymunol, efallai na fydd yn bosibl, a bydd angen cysylltu galwadau dilys nad ydynt efallai wedi cael cadarnhad. Fodd bynnag, mae cysylltu galwadau heb gadarnhad yn creu'r risg o fannau gwan y gallai sgamwyr gymryd mantais ohonynt. Felly, mae ein barn ynghylch sut gallai dilysu CLI weithio yn ceisio cydbwyso'r angen i gysylltu galwadau dilys â'r angen i leihau unrhyw fylchau yn y system. Rydym hefyd wedi ystyried sut y gellid plismona'r drefn gadarnhau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau. Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar gyflawnder, ymarferoldeb ac effeithiolrwydd posibl yr awgrymiadau hyn.

Yn olaf, os caiff ei gyflwyno, gall dilysu CLI arwain at ganfod achosion o dorri rheoliadau a galwyr sgam yn haws, drwy adnabod darparwr gwreiddiol yr alwad yn gyflymach. Gallai hyn ei gwneud yn haws i Ofcom, rheoleiddwyr eraill a chyrff gorfodi'r gyfraith fynd ar drywydd y rheini sy'n gyfrifol am wneud galwadau sgam.

Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion penodol ar gyfer cyflwyno dilysu CLI yn yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, yn y ddogfen hon, rydym ni'n gofyn am safbwyntiau gan randdeiliaid ar ein syniadau cychwynnol ynghylch sut gallai dilysu CLI weithio, ac i ba raddau y gallai mesurau eraill fod yn ddigonol i fynd i'r afael â'r broblem o gamfeddiannu rhifau.

## Y camau nesaf

1.1 Rydym yn gwahodd ymatebion erbyn **23 Mehefin 2023**.